



# Bwletin GwE

## Cynhadledd Addysg Genedlaethol ar gyfer Penaethiaid a Rhanddeiliaid Allweddol

**CWRICWLWM I GYMRU: TROI'R GORNEL – Y CAMAU PWYSIG NESAF AR GYFER POB YSGOL**

**Dydd Iau, 23 Tachwedd 2017 – Venue Cymru, Llandudno**

Yn dilyn lansio 'Addysg yng Nghymru – Cenhadaeth ein Cenedl', dymuna 'Addysg Cymru' eich gwahodd i'r gynhadledd addysg genedlaethol ar gyfer penaethiaid a rhanddeiliaid allweddol.

**Cliciwch yma** am ragor o fanylion ac i gadw lle.



## Cymedroli Cyfnod Allweddol 2 a 3

Er nad oes unrhyw newid mawr i'r drefn eleni, mae GwE yn gofyn i glystyrau enwebu 'arweinwyr asesu' ar gyfer CA2 a CA3 erbyn **Dydd Llun, Tachwedd 27ain**. Eu rôl fydd sicrhau fod y wybodaeth am y broses yn cael ei rhannu gyda'r athrawon a'r adrannau perthnasol yn y clwstwr. Gweler yr **amserlen** am fwy o wybodaeth.

## Cyhoeddi Deunyddiau Enghreifftiol Gwyddoniaeth ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 - 3

Dyma'r cyntaf mewn cyfres a gynlluniwyd i ddarparu cymorth wrth asesu gwyddoniaeth ar ddiwedd Cyfnodau Allweddol 2 a 3.

Nod y **deunyddiau enghreifftiol** hyn, yr helpodd staff GwE i greu, yw helpu ysgolion ac athrawon wrth wneud asesiadau ar gyfer gwyddoniaeth ar ddiwedd Cyfnodau Allweddol 2 a 3.

**Cliciwch yma**, am ragor o fanylion.

## Gwobrau Addysgu Proffesiynol Cymru

Os ydych yn athro, athrawes, myfyriwr, rhiant, cyflogwr neu gydweithiwr, ac yn gwybod am rywun sy'n haeddu Gwobr Addysgu Proffesiynol, mae gennych tan **hanner nos ar 30 Tachwedd 2017** i enwebu ar-lein.

**Mae yna 9 categori eleni, yn cynnwys categori Rheolwr Busnes Ysgol/Bwsar, ar gyfer rhai sy'n dangos:**

- . y gallu i reoli a hyrwyddo agenda'r ysgol;
- . rhinweddau arweinyddiaeth a meddwl yn arloesol i sicrhau canlyniadau ar gyfer eu hysgol.
- . **Cliciwch yma** am fwy o wybodaeth.

## Categoreiddio Cenedlaethol

**DIWEDDARIAD I'R CATEGOREIDDIO CENEDLAETHOL**

Mae'r **llythyr yma** gan Lywodraeth Cymru yn hysbysu ysgolion o'r newidiadau i'r categoreiddio cenedlaethol ac yn nodi na fydd Cam 1 yn cael ei gyhoeddi eleni. Mae'r Grŵp Ansawdd a Safoni hefyd wedi cyfarfod i ddiwygio'r **ddogfen ganllaw** ar gyfer 2017-18. I weld yr amserlen ar gyfer eleni, ac am ragor o wybodaeth, **cliciwch yma**.

## Canllawiau ar gyfer Lleihau Llwyth Gwaith Athrawon

Bydd cyflwyniadau yn digwydd yn rhanbarthol yn ystod y tymor mewn fforymau gwahanol i benaethiaid er mwyn codi ymwybyddiaeth ymhellach o'r agenda genedlaethol ar gyfer lleihau baich gwaith athrawon.

**Cliciwch yma** am ragor o fanylion ac i lawrlwytho copi o'r **cyflwyniad**.

## Newyddion Cynradd

### Trefniadau ar gyfer Cynnal Aseidiadau Diwedd Cyfnod Sylfaen 2017-2018

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi datganiad ar drefniadau cynnal aseidiadau diwedd Cyfnod Sylfaen 2017-2018.

[Cliciwch yma](#) i ddarllen y datganiad.

## Cyfleoedd Hyfforddi Cynradd

### Gweithdai Rhifedd Trawsgwricwlaidd

#### **CA2** ★NEWYDD★

Gweithdai am ddim ar gyfer athrawon blynyddoedd 3/4 a 5/6 i gyfoethogi darpariaeth rifedd drawsgwricwlaidd, gan sicrhau tasgau heriol, cyfoethog a diddorol sy'n anelu at symud pob dysgwr ymlaen. **Nifer yn gyfyngedig.**

[Cliciwch yma](#)

### Arfarnu a Gwella Ansawdd Addysgu yn Effeithiol Drwy Ddefnyddio Continua Addysgu – Yr Offeryn Hunan Arfarnu i Athrawon - Gareth Coombes

**HYFFORDDIANT AR GYFER HOLL BENAETHIAID NEU ARWEINWYR DYSGU YSGOLION Y RHANBARTH**

Bwriad yr hyfforddiant yw cefnogi arweinwyr wrth fynd ati i wella addysgu ar gyfer dysgu mewn ffordd strwythuredig a chynaliadwy. [Cliciwch yma](#) i gofrestru. *Nodwch fod yr hyfforddiant yma drwy gyfrwng y Saesneg ond bydd y deunyddiau i gyd ar gael yn y Gymraeg.*

### Dosbarth Diwylliant

**DIGWYDDIAD RHANNU A RHWYDWEITHIO I YSGOLION CYNRADD A LLEOLIADAU DIWYLLIANNOL**

Digwyddiad wedi'i drefnu gan EDAU. Darganfyddwch sut mae ysgol wedi defnyddio amgueddfa fel dosbarth am 6 wythnos a gwella hyder, sgiliau cyfathrebu a sgiliau cymdeithasol disgyblion. [Cliciwch yma](#) am ragor o fanylion ac [yma](#) i gofrestru.

### Gweithdai Cyfnod Sylfaen ar gyfer

#### Athrawon Blynyddoedd 1 a 2

**\*CYFLE OLAF I GOFRESTRU\***

## Newyddion Uwchradd

### Cyfle Olaf i Roi Adborth ar Gymwysterau

#### **TGAU** ★NEWYDD★

Ewch i [wefan](#) Cymwysterau Cymru am ragor o wybodaeth.

### Newidiadau i Fesurau Perfformiad yng Nghyfnod Allweddol 4 sy'n Effeithio ar Gofrestru'n Gynnar

Ar 16 Hydref, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg newidiadau i fesurau perfformiad Cyfnod Allweddol 4 o ganlyniad i gynnydd sylweddol yn nifer y dysgwyr sy'n sefyll arholiadau TGAU yn gynnar yng Nghymru. [Parhau i ddarllen...](#)

## Cyfleoedd Hyfforddi Uwchradd

### Hyfforddiant Cymhwysedd Digidol

#### **Ysgolion Uwchradd** ★NEWYDD★

Mae nifer o gyrsgiau wedi eu trefnu ar gyfer yr hanner tymor nesaf.

[Cliciwch yma](#) am y rhestr.

### Cyfarfodydd Fforwm Cydlynwyr Rhifedd

#### **CA3**

Gwahoddir Cydlynwyr Rhifedd CA3 i fynychu un o'r cyfarfodydd fforwm a restrir [yma](#).

### Mathemateg Uwchradd

**HYFFORDDIANT GAN YR MEI YNG NGOGLEDD CYMRU**

Am ragor o fanylion, [cliciwch yma](#).

**(Ymddiheurwn nad yw'r hysbyseb ar gael yn y Gymraeg)**

### Cynhadledd Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol (PCET): Ymagwedd

#### Gydweithredol Darparwyr at

#### Ddarpariaeth

**DYDD IAU, 30 TACHWEDD 2017 – 9:30YB-3:30YP – STADIWM CAERDYDD, LECKWITH**

Mae Colegau Cymru / Fforwm Services Ltd yn falch o gynnal Cynhadledd Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol (PCET) - Ymagwedd Gydweithredol Darparwyr at Ddarpariaeth.

Am ragor o fanylion, [cliciwch yma](#). I gofrestru, dilynwch y [ddolen hon](#).

## Cyfleoedd Datblygu Proffesiynol

Sut i Gynllunio ar gyfer Datblygu Uwch Sgiliau Darllen i Fodloni Gofynion Deilliannau 5 a 6 o fewn y Ddarpariaeth Barhaus a Chyfoethogi  
Am ragor o fanylion, [cliciwch yma](#).  
I gofrestru, dilynwch y [ddolen hon](#).

## Gweithdai Cyfnod Sylfaen ar gyfer Cymorthyddion Dosbarth Blynnyddoedd 1 a 2

### **\*CYFLE OLAF I GOFRESTRU\***

Sut i Gynllunio ar gyfer Datblygu Uwch Sgiliau Darllen i Fodloni Gofynion Deilliannau 5 a 6 o Fewn y Ddarpariaeth Barhaus a Chyfoethogi  
Am ragor o fanylion, [cliciwch yma](#).  
I gofrestru, dilynwch y [ddolen hon](#).

## Hyfforddiant 'Creadigrwydd yn y Cyfnod Sylfaen'

### **DYDDIADAU A LLEOLIADAU AMRYWIOL**

Am ragor o fanylion, [cliciwch yma](#).  
I gofrestru, cysylltwch â [helen@mentermon.com](mailto:helen@mentermon.com)

## Gweithdai a Chyfarfod Dyfal Donc a/neu Catch Up

### **DYDDIADAU A LLEOLIADAU AMRYWIOL**

Ar gyfer rhai sydd eisoes wedi cael hyfforddiant i gyflwyno Catch Up a/neu Dyfal Donc.  
[Cliciwch yma](#) am ragor o wybodaeth.

## Datblygiad Proffesiynol ar gyfer holl

### Athrawon y Cyfnod Sylfaen

### **\*CYFLE OLAF I GOFRESTRU\***

### **DEALL CYSYNIADAU MATHEMATEGOL YN Y CYFNOD SYLFAEN, GARETH METCALFE**

Bydd Gareth Metcalfe yn cynnal gweithdai mathemateg yn ystod Tymor yr Hydref 2017, a Thymor y Gwanwyn 2018.  
Bydd y gweithdai am ddim i holl athrawon y CS.  
[Cliciwch yma](#) am ragor o fanylion.

## Cymhwysedd Digidol

### **DYDDIADAU A LLEOLIADAU AMRYWIOL**

Cyrsiau Rhyngweithio a Chydweithio yn CA2 – [cofrestrwch yma](#).  
Rhagor o gyrsiau i ddilyn!

## Gwybodaeth bwysig i CALUau a Chymorthyddion Dysgu ar draws Cymru

### **A. CYNHELIR CYNADLEDDAU CALU AR Y DYDDIADAU CANLYNOL: ★NEWYDD★**

- GwE – Dydd Gwener yr 2ail o Fawrth 2018
- CCD / GCA – Dydd Llun y 5ed o Fawrth 2018
- ERW – Dydd Mawrth y 6ed o Fawrth 2018

Ni fydd unrhyw gost i fynychu'r gynhadledd a thelir costau llanw.

Am fanylion pellach, cysylltwch â'ch consortiwm rhanbarthol ar [calu@gwegogledd.cymru](mailto:calu@gwegogledd.cymru) os gwelwch yn dda neu ewch ar wefan eich consortiwm rhanbarthol.

### **B. TYMOR Y GWANWYN 2018 ★NEWYDD★**

Darperir dwy raglen newydd ar draws Cymru ar gyfer Cymorthyddion Dysgu:

- Sefydlu ar gyfer cymorthyddion dysgu newydd
- Hyfforddiant cymorthyddion dysgu profiadol

Cyhoeddir dyddiadau drwy wefan eich consortiwm.

Ni fydd unrhyw gost ynghlwm â'r rhaglenni a thelir costau llanw.  
Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â'ch consortiwm rhanbarthol ar [calu@gwegogledd.cymru](mailto:calu@gwegogledd.cymru) neu ewch ar [wefan eich consortiwm rhanbarthol](#).

## **Cyfleoedd Hyfforddi Eraill**

### "Arhoswch yn Ddiogel, Byddwch yn Ddiogel": Deall Eich Cyfrifoldebau Proffesiynol

Mae Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA), mewn cydweithrediad â GwE, yn cynnig y sesiwn hon i bob ymarferwr ac i'r rhai sydd â chyfrifoldeb am staff. Cynhelir y sesiynau dwy-awr hyn ar 5 a 6 Rhagfyr ym Mhlas Menai yn Y Felinheli, yn yr OpTIC yn Llanelwy, ac ym Mhrifysgol Glyndŵr yn Wrecsam. Ni fydd cost i'r rhai sy'n mynychu.

Saesneg fydd iaith y cyflwyniad, gyda chyfieithydd yn bresennol ym Mhlas Menai, ac yn yr OpTIC yn ôl yr angen. Am fwy o fanylion ac i gofrestru, [cliciwch yma](#).

### Y Rhaglen Feithrin Genedlaethol i Ysgolion

- 5 RHAGFYR 2017 – VENUE CYMRU, LLANDUDNO
- 8 RHAGFYR 2017 – PRIFYSGOL GLYNDŴR, WRECSAM

Bwriad y gweithdy undydd yw rhoi cipolwg i chi o'r Rhaglen Feithrin Genedlaethol i Ysgolion, dan arweiniad y Rhwydwaith Grŵp Meithrin (Nurture Group Network).  
[Cliciwch yma](#) am ragor o fanylion.

### Llafaredd gyda Julia Strong

**DYDD LLUN, 20 TACHWEDD 2017 – VENUE CYMRU, LLANDUDNO – 9:15YB-3:30YP**

Sesiwn datblygu llafaredd gyda Julia Strong ar gyfer ysgolion Uwchradd a Chynradd.

Y diwrnod cyntaf allan o dri sesiwn datblygu a gynhelir trwy'r flwyddyn.

**Cliciwch yma**, am ragor o fanylion. I gofrestru, dilynwch y ddolen hon

## **Mwy Abl a Thalentog: Adnabod a Chefnogi Disgyblion MATH Mewn Celf**

**HYFFORDDIANT ATHRAWON BL. 5-9**

Cyfle i ddysgu mwy am sut i adnabod a chefnogi disgyblion sy'n fwy abl a thalentog ym maes celf, yng nghwmni'r athrawes brofiadol Jane Barraclogh ac artistiaid proffesiynol amrywiol.

Am ragor o fanylion, cysylltwch â

[janemuir25@hotmail.com](mailto:janemuir25@hotmail.com).

Cofrestrwch ar-lein gan ddefnyddio [Eventbrite](#), manylion ar gael ar Facebook a Twitter: [@EduCymru](#)

## **Digwyddiadau a Hysbysebion**

### **Hyfforddiant Ymlyniad a Thrawma**

**DYDDIADAU A LLEOLIADAU AMRYWIOL**

Bydd Braveheart Education yn cyflwyno Trawma Datblygiadol ac Ymlyniad, gyda gwaith ymchwil sy'n seiliedig ar dystiolaeth ymarferol.

Am ragor o fanylion ac i gofrestru, [cliciwch yma](#).

**NODWCH FOD DEUNYDDIAU'R CYRSIAU CANLYNOL AR GAEL YN DDWYIEITHOG OND BYDD Y CYRSIAU'N CAEL EU CYFLWYNO DRWY GYFRWNG Y SAESNEG YN UNIG.**

### **Menter Ysgolion y Dreftadaeth Gymreig – 2018**

Lansiwyd y Fenter ym 1990, dan nawdd y Sefydliad Materion Cymreig. Y nod yw annog pobl ifanc mewn ysgolion yng Nghymru i ymddiddori mwy yn eu treftadaeth ac yng nghyfraniad eu teuluoedd a'u cymunedau at y dreftadaeth honno. Mae'r Fenter yn cynnal cystadleuaeth flynyddol ar gyfer projectau treftadaeth yn ysgolion Cymru.

Am ragor o fanylion, cliciwch [yma](#).

**COFRESTRU CEISIADAU ERBYN: 2 CHWEFOR 2018**

## **Cydnabyddiaeth Genedlaethol i Dair Ysgol yng Ngwynedd ★NEWYDD★**

Llongyfarchiadau i dair o ysgolion Gwynedd sydd wedi eu cydnabod mewn seremoni genedlaethol ddiweddar. Yn wir, y tair ysgol o Wynedd oedd yr unig ysgolion cynradd o chwe sir y Gogledd i gael eu cydnabod.

[Cliciwch yma](#) am ragor o fanylion am eu llwyddiant rhagorol.

## **Sefydliad Ffiseg – Enillwyr Gwobr Athrawon Ffiseg 2017 ★NEWYDD★**

Llongyfarchiadau i Mr. Huw Smith, Pennaeth yr Adran Ffiseg yn Ysgol Friars, Bangor a wobrwyrwyd am ei gyfraniadau eithriadol i addysgu ffiseg.

[Cliciwch yma](#) i ddarllen yr erthygl amdano ar wefan y Sefydliad Ffiseg.

**Cofiwch ddilyn [@GwEGogleddCymru](#) ar Twitter**

**[GwEGogledd.Cymru](#)**

Am fwy o wybodaeth, ewch i'n gwefan

